



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2017

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	3
Crynodeb	4
Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	5
Categori'r Ceisiwr	8
Prydlondeb yr Ymatebion	9
Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd	10
Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau	12
Adolygiadau Mewnol	14
Prydlondeb Adolygiadau Mewnol	16
Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth	16
Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth)	16
Atodiad A: Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2017	17

Cyflwyniad:

Dyma'r ddeuddegfed adroddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Adroddiad ôl-weithredol yw hwn sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2017.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sydd wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR). Dim ond y ceisiadau a gofnodir gan Uned Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau - nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" a gwybodaeth a rennir yn ystod gwaith y Llywodraeth o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond awgrym o brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni bai y nodir fel arall, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau drwy'r adroddiad hwn gan ddefnyddio System Orlhain Ceisiadau am Wybodaeth (RFI) Llywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2018. Nodwch y talgrynnir canrannau i un pwynt degol mewn meysydd, a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Crynodeb:

Yn 2017:

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru 787 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.
- Bu gostyngiad o 11.1% (o 885 yn 2016) yng nghyfanswm nifer y ceisiadau.
- O'r 787 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau¹ 787 (100.0%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.
- O'r 787 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 618 (78.5%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 657 (83.5%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol².
- O'r 787 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth neu'r wybodaeth i gyd mewn ymateb i 493 (62.6%).
- Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd o dan FOIA oedd: adran 40: gwybodaeth bersonol (24.4%), adran 21: gwybodaeth sydd ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (18.4%), ac adran 43: buddiannau masnachol (12.8%).
- Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 56 o gwynion (7.1% o'r ceisiadau a dderbyniwyd) yn ymwneud â'i gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- O'r 56 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 3 achos, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 13 achos, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 39 achos, a thynnwyd 1 gŵyn yn ôl gan yr achwynydd.
- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 12 cwyn³ (1.5% o geisiadau) a chyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad mewn cysylltiad â 6 ohonynt.
- Roedd 1 o Hysbysiadau Penderfynu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

¹Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.

² Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

³ Diffinnir cŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi Hysbysiad o Benderfyniad neu sydd fel arall yn cael ei ddatrys gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 787 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2017. Ers cychwyn y FOIA ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob blwyddyn wedi amrywio. Roedd gostyngiad o 11.1% yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2017 o'i gymharu â 2016.


Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn rhoi manylion am gyfanswm blynyddol nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob mis yn 2016 ac yn 2017.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2017

Blwyddyn	Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%)
2005	898	-
2006	677	-24.6%
2007	574	-15.2%
2008	638	11.1%
2009	860	34.8%
2010	813	-5.5%
2011	853	4.9%
2012	992	16.3%
2013	1,102	11.1%
2014	914	-17.1%
2015	899	-1.6%
2016	885	-1.6%
2017	787	-11.1%


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2017



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd bob mis yn ystod 2016 a 2017

Mis	2016	% o'r Cyfanswm	2017	% o'r Cyfanswm
Ionawr	76	8.6%	59	7.5%
Chwefror	93	10.5%	57	7.2%
Mawrth	84	9.5%	70	8.9%
Ebrill	71	8.0%	32	4.1%
Mai	64	7.2%	55	7.0%
Mehefin	57	6.4%	54	6.9%
Gorffennaf	76	8.6%	65	8.3%
Awst	78	8.8%	76	9.7%
Medi	89	10.1%	73	9.3%
Hydref	78	8.8%	68	8.6%
Tachwedd	58	6.6%	112	14.2%
Rhagfyr	61	6.9%	66	8.4%
Cyfanswm	885	100%	787	100%

Ffigur 2: Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi bob mis yn ystod 2016 a 2017




Darperir yn Nhabl 3 ddadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2017

Maes / Grŵp Cyfarwyddwr Cyffredinol	2017 Nifer y Ceisiadau	% y Ceisiadau
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	165	21.0%
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	343	43.6%
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	114	14.5%
Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet	165	21.0%
Cyfanswm	787	100%

Ffigwr 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2017




Categori'r Ceisiwr:

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau Cynulliad (ACau), y cyfryngau, aelodau staff ac Aelodau Seneddol (ASau) yn cyfrif am 194 (24.7%) o'r 787 o geisiadau a dderbyniwyd. Cofnodwyd y 593 o geisiadau a oedd yn weddill (sef 75.3% o'r holl geisiadau) o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2017

	Arall	AC	Y cyfryngau	Aelodau staff	AS
Chwarter 1	143	17	23	3	0
Chwarter 2	120	9	10	0	2
Chwarter 3	167	23	19	1	4
Chwarter 4	163	64	16	0	3
Cyfanswm 2017	593	113	68	4	9

Ffigur 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2017



Prydlondeb yr Ymatebion:

Fel arfer, mae'r FOIA ac EIR yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn, a cheir eithriadau cyfyngedig. Mae'r FOIA yn caniatáu estyniad rhesymol i'r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi'i bwysu a'i fesur yn ôl buddiannau'r cyhoedd ac mae'r EIR yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 787 o geisiadau, roedd 787 wedi'u cwblhau (100.0%) ar adeg llunio'r adroddiad. O'r 787 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 618 (78.5%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 657 (83.5%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol⁴.

Mae tabl 5 isod yn manylu ar ganran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005⁵.

Tabl 5: Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2017

Blwyddyn	% a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol
2005	63.3%
2006	64.2%
2007	81.0%
2008	86.2%
2009	82.1%
2010	74.6%
2011	83.0%
2012	89.0%
2013	90.1%
2014	91.0%
2015	86.6%
2016	84.7%
2017	83.5%

⁴ Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

⁵ Mae'r ffigurau ar gyfer 2005-2008 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau agored yn cael eu cwblhau ar ôl eu cyhoeddi.


Canlyniad y Ceisiadau a Gwblhawyd:

Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 6a a 6b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016 a 2017 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau wedi'u cwblhau a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2016 a 2017

Categori Cwblhau	2016	% o'r Cyfanswm	2017	% o'r Cyfanswm
Darparwyd yr holl wybodaeth	422	47.7%	354	45.0%
Darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth	137	15.5%	139	17.7%
Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ⁶	152	17.2%	113	14.4%
Ni chedwir unrhyw wybodaeth	159	18.0%	168	21.3%
Wedi'u tynnu'n ôl	15	1.7%	13	1.7%
Cyfanswm	885	100%	787	100%

Ffigwr 6a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2017




⁶ Mae'r categori 'Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un eithriad neu fwy, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am fynd y tu hwnt i'r cyfyngiad priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu wedi'u hailadrodd

Tabl 6b: Nifer y ceisiadau 'Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2016 a 2017

Categori Cwblhau Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth	2016	% o'r Cyfanswm	2017	% o'r Cyfanswm
A12 Mynd y Tu Hwnt i'r Cyfyngiad Priodol	52	34.2%	40	35.4%
A14 Blinderus	2	1.3%	1	0.9%
A14 Wedi'u hailadrodd	3	2.0%	1	0.9%
Gwybodaeth yn dod o dan gategori esemptio arall ⁷	95	62.5%	71	62.8%
Cyfanswm	152	100%	113	100%

Ffigur 6b: Nifer y ceisiadau 'Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2017



⁷Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle tynnwyd gwybodaeth yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu fwy o'r eithriadau/esemptiadau a restrwyd yn yr FOIA, EIR 2004 neu DPA ac eithrio a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol' ac a14 'blinderus neu ailadroddus'.

Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau:

O dan y FOIA, ni all awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani, dim ond os bodlonir y canlynol:

- ystyrir y cais yn flinderus neu wedi'i ailadrodd;
- byddai'r gost o gydymffurfio yn fwy na'r 'cyfyngiad priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn dod o dan un neu fwy o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn y FOIA, EIR 2004 neu'r DPA.

Mae Tabl 7 a Ffigwr 7 yn rhoi manylion am yr esemptiadau a'r eithriadau a gymhwyswyd o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2017. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad iddynt gan ei fod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/about/foi/responses/?skip=1&lang=cy>


Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd oedd er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 FOIA), lle'r oedd yr wybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (adran 21 FOIA) ac i amddiffyn buddiannau masnachol pwysig (adran 43 FOIA).

Tabl 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2017

Deddf-Esemptiad ⁸	2017	% o'r Cyfanswm
EIR Rheoliad 13	10	4.0%
FOIA Adran 21	46	18.4%
FOIA Adran 22	17	6.8%
FOIA Adran 35	13	5.2%
FOIA Adran 36	15	6.0%
FOIA Adran 40	61	24.4%
FOIA Adran 43	32	12.8%
Pob esemptiad arall	56	22.4%
Cyfanswm	250	100%

⁸Darperir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn ymwneud ag ef, ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/>

Ffigur 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2017



Adolygiadau Mewnol:

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol os: i) nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Derbyniodd Llywodraeth Cymru 56 o gwynion yn 2017 sy'n cyfateb i 7.1% o geisiadau. Roedd hyn yn lleihad o 5.1% o'i gymharu â 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau adolygiad mewnol mewn cysylltiad â phob un o'r 56 o gwynion.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2017)

Blwyddyn	Cyfanswm nifer y cwynion
2005	14
2006	27
2007	22
2008	21
2009	16
2010	33
2011	33
2012	45
2013	51
2014	41
2015	40
2016	59
2017	56

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 8: Nifer y Cwynion (2005-2017)




Tabl 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2017

	Nifer	% o'r Cyfanswm
Cadarnhawyd y gŵyn	3	5.4%
Cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol	13	23.2%
Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol	39	69.6%
Wedi'i dynnu yn ôl	1	1.8%
Cyfanswm	56	100%

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 56 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 3 achos, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 13 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 39 o achosion. Cafodd 1 adolygiad mewnol ei dynnu'n ôl gan yr achwynydd.

Ffigwr 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2017



Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:

Ni cheir unrhyw derfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac mewn achosion eithriadol gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau i 40 diwrnod gwaith.

O'r 56 adolygiad mewnol, cwblhawyd 44 (78.6%) o fewn 20 diwrnod gwaith, cwblhawyd 11 (19.6%) o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith a chymerodd 1 (1.8%) fwy na 40 diwrnod gwaith i'w gwblhau.

Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Os nad yw ceisiwr yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr ICO yn penderfynu a ddylid ymchwilio a gall yn ddiweddarach gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad. Hysbysiad o Benderfyniad yw barn derfynol yr ICO ar ba un a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r FOIA neu'r EIR, a pha gamau adferol (os oes un) sydd angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad o Benderfyniad. Datrysir rhai ymchwiliadau yn anffurfiol.

Yn 2017 ymchwiliodd yr ICO i 12 o gwynion⁹ (1.5% o geisiadau). O'r 12 ymchwiliad a gwblhawyd, cyhoeddwyd 6 hysbysiad o benderfyniad.

Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth):

Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) yn gwrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Penderfynu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn 2017, apeliwyd 1 Hysbysiad o Benderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

⁹Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad, neu sy'n cael ei ddatrys gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2017

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwysir esemptiad a/neu eithriad atynt gan ei bod hi'n bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad yn ymwneud â cheisiadau unigol.

Deddf - Esemptiad	2017	% o'r Cyfanswm
DPA Adran 29 – Trosedd a threthiant	1	0.4%
DPA Adran 31 – Gweithgarwch rheoleiddio	1	0.4%
EIR 12(4)(b) – Bod y cais yn amlwg yn afresymol	2	0.8%
EIR Rheoliad 12(4)(e) – Cyfathrebu mewnol	8	3.2%
EIR Rheoliad 12(5)(a) – Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyniad, diogelwch gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd	2	0.8%
EIR Rheoliad 12(5)(b) – Cwrs cyfiawnder, achos teg, ymchwiliad troseddol neu ddisgyblu	1	0.4%
EIR Rheoliad 12(5)(e) – Cyfrinachedd o ran gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol pan fo'r gyfraith yn galw am gyfrinachedd er mwyn amddiffyn budd masnachol cyfreithlon	1	0.4%
EIR Rheoliad 12(5)(g) – Diogelu'r amgylchedd y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef	1	0.4%
EIR Rheoliad 13 – Data personol trydydd partïon	10	4.0%
FOIA Adran 21 – Gwybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill	46	18.4%
FOIA Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol	17	6.8%
FOIA Adran 24 – Diogelwch Gwladol	1	0.4%
FOIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig	6	2.4%
FOIA Adran 29 – Yr economi	8	3.2%
FOIA Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith	6	2.4%
FOIA Adran 35 – Llunio polisi'r llywodraeth	13	5.2%
FOIA Adran 36 – Ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol	15	6.0%
FOIA Adran 38 – Iechyd a diogelwch	5	2.0%
FOIA Adran 40 – Gwybodaeth bersonol	61	24.4%
FOIA Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol	8	3.2%
FOIA Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol	4	1.6%
FOIA Adran 43 – Buddiannau Masnachol	32	12.8%
FOIA Adran 44 – Gwahardd datgeliad	1	0.4%
Cyfanswm	250	100%